Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru

**Rhagfyr 2020**

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru 41739, ISBN digidol 978-1-80082-651-9

# Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru – crynodeb ar gyfer Cyllideb 2021-22

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad i weld pwy sy'n elwa ar wariant ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Yn benodol, mae'r gwaith hwn yn ystyried effaith gwariant cyhoeddus ar aelwydydd mewn gwahanol rannau o'r dosbarthiad incwm.

2. Yn ogystal â darparu rhai canlyniadau eang ar gyfer Cymru, mae'r gwaith hwn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried cryfderau a gwendidau dadansoddiad o'r fath – y tybiaethau angenrheidiol a'r cyfyngiadau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys disgrifiad o'r fethodoleg, crynodeb o'r canlyniadau dadansoddol, a thrafodaeth fer o'r materion a godwyd. Bydd yn llywio dull Llywodraeth Cymru o gynnal dadansoddiadau dosbarthiadol yn y dyfodol, a'r potensial i'w defnyddio fel rhan o'r broses gyllidebol.

## Cefndir

3. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin gallu i ddadansoddi effaith ddosbarthiadol trethi a newidiadau i fudd-daliadau yng Nghymru. Dros y 12 mis diwethaf, mae wedi bod yn gweithio i ategu'r gwaith hwnnw drwy ystyried pwy sy'n elwa ar y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a ddarperir yng Nghymru (y cyfeirir atynt weithiau fel buddion 'mewn nwyddau').

4. Mae'r Cynllun Gwella'r Gyllideb[1], a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, ac a ddiweddarwyd fel rhan o becyn cyllideb ddrafft 2021-22, yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wella proses y gyllideb dros y 5 mlynedd nesaf. Un elfen o'r cynllun hwn yw ystyried y potensial ar gyfer datblygu model dosbarthiadol i Gymru i ddadansoddi effaith gwariant cyhoeddus ar draws y dosbarthiad incwm a phrofi unrhyw fodel sy'n deillio o'r gwaith hwn er mwyn pennu pa mor ddefnyddiol a chredadwy ydyw. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddariad sylweddol cyntaf ar yr elfen hon o'r cynllun.

5. Mae'r dadansoddiad o effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus hefyd yn rhan o'r gwelliannau i'r wybodaeth a gyhoeddir am y gyllideb flynyddol i lywio penderfyniadau strategol am y gyllideb yn y dyfodol. Bydd y dull hwn yn gyson â rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol[2] a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021.

---

[1] I gael rhagor o fanylion, gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/cynllun-gwellar-gyllideb.pdf
[2] I gael rhagor o wybodaeth gweler; https://llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

6. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[3] adroddiad yn 2018 a ddefnyddiodd ddadansoddiad dosbarthiadol i ddangos effaith newidiadau i wariant cyhoeddus dros y degawd diwethaf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gwnaed y gwaith gan Landman Economics. Mae'r dull hwn o ddadansoddi gwariant cyhoeddus wedi'i gyhoeddi hefyd ar lefel y DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'i datganiad blynyddol ar effaith trethi a budd-daliadau ar incwm aelwydydd[4]. Mae Trysorlys EM[5] wedi defnyddio technegau tebyg mewn dadansoddiadau sy'n cyd-fynd â'i Gyllidebau. Ystyriwyd y dulliau a ddefnyddiwyd yn y cyhoeddiadau hyn fel rhan o'r gwaith sy'n ategu'r adroddiad hwn.

## Methodoleg

*Dull*

7. Mae angen model micro-efelychu gwariant cyhoeddus ar gyfer y dadansoddiad. Mae'r model hwn yn cyfuno data ar wariant cyhoeddus cyfanredol â micro-ddata arolwg ar y defnydd o wasanaethau cyhoeddus gan aelwydydd, wedi'u cysylltu â gwybodaeth am incwm aelwydydd.

8. Mae'r dulliau a fabwysiadwyd wedi'u pennu gan y data sydd ar gael. Ceir cyfyngiadau data sylweddol yn y maes hwn heb unrhyw ffynhonnell sengl o wybodaeth sy'n nodi'r holl ddefnydd o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ynghyd â gwybodaeth fanwl am incwm.

9. Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn fwyaf tebyg i'r un a ddefnyddiwyd gan Landman Economics ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r cydweithrediad a'r tryloywder a ddangoswyd gan Landman Economics. Mae hyn wedi bod o gymorth mawr wrth lunio'r dadansoddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi ceisio ymestyn ac adeiladu ar yr argymhellion a wnaed gan Landman Economics lle y bo'n bosibl.

10. Cafodd y gwaith hwn hefyd ei gynorthwyo gan gynllun interniaeth Myfyrwyr Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru.

*Cwmpas gwariant cyhoeddus*

11. Mae'r model yn cwmpasu gwariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan ystyried y gwasanaethau cyhoeddus hynny a ddarperir neu a ariennir gan Lywodraeth Cymru a/neu lywodraeth leol.

---

[3]Ar gael yn https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/cumulative-impact-on-living-standards-of-public-spending-changes.pdf

[4] I gael rhagor o fanylion, gweler; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/bulletins/theeffectsoftaxesandbenefitsonhouseholdincome/financialyearending2019

[5] Er enghraifft, gweler; https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/871883/Budget_2020_DA_publication.pdf

12. Mae cyfyngiadau data yn golygu ei bod ond yn bosibl cyflwyno'r dadansoddiadau ar lefel Cymru gyfan. Cydnabyddir bod gwahaniaethau yn y lefelau ariannu a'r ffyrdd y caiff y gwasanaethau eu darparu mewn ardaloedd lleol gwahanol, a allai effeithio ar effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth fanwl y byddai ei hangen er mwyn cyflwyno dadansoddiadau ar lefel islaw lefel Cymru gyfan ar gael.

13. Mae'r dadansoddiad hwn ond yn cynnwys gwariant adnoddau - sef gwariant o ddydd i ddydd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, fel costau staff. Ceir cysylltiad cymharol uniongyrchol rhwng y math hwn o wariant a'r fantais i'r rai sy'n derbyn y gwasanaeth.  Nid yw gwariant cyfalaf wedi'i gynnwys, yn rhannol am fod y cysylltiad hwnnw'n llawer llai uniongyrchol. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd gwariant cyfalaf mewn ysgolion yn fanteisiol i'r rhai sydd mewn addysg ar adeg y gwariant. Mae'n fwy tebygol o fod yn fanteisiol i garfannau disgyblion y dyfodol a fydd yn mynychu cyfleuster newydd neu wedi'i adnewyddu.

14. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio amcangyfrifon gwariant cyhoeddus ar gyfer 2019-20, yn hytrach na'r flwyddyn ariannol bresennol. Mae gwariant cyhoeddus yn 2020-21 yn debygol o fod yn flwyddyn annodweddiadol yn nhermau cyfanswm y gwariant cyhoeddus ac ym meysydd y llywodraeth a all fod wedi gweld cynnydd mawr, yn bennaf er mwyn rheoli'r pandemig. Gan fod yr amcangyfrifon o ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid ydynt yn debygol o adlewyrchu'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus eleni.

15. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i bobl hŷn.  Mae hyn yn cyfrif am tua £11 biliwn o wariant adnoddau datganoledig yng Nghymru yn 2019-20, gan gynrychioli tua dwy ran o dair o'r cyfanswm. Daw'r wybodaeth hon o ddata gwariant datganoledig manwl yn ôl swyddogaeth, fel yr argymhellwyd gan Landman Economics. Mae'n eithrio gwariant gan Lywodraeth y DU yng Nghymru.

16. Mae'r gwariant ar bob rhaglen yn cael ei rannu rhwng pawb y nodir neu yr amcangyfrifir eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r dulliau a ddefnyddir i wneud hyn wedi'u nodi yn yr adrannau canlynol.

17. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a all fersiynau posibl o'r gwaith hwn yn y dyfodol gynnwys unrhyw elfennau eraill o wariant cyhoeddus datganoledig mewn ffordd addas.

*Data ar incwn*

18. Diben y dadansoddiad hwn yw dangos defnydd gwasanaethau cyhoeddus yn ôl incwm aelwydydd. Un o'r ffynonellau data mwyaf manwl sydd ar gael at y

diben hwn yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu[6]. Mae'n ategu'r dadansoddiad a gyflwynir yma.

19. Amcangyfrifir incwm aelwydydd drwy gydgrynhoi incwm a budd-daliadau ar ôl treth ar draws holl aelodau'r aelwyd. Yna caiff aelwydydd eu rhoi yn eu trefn yn ôl eu hincwm[7].

20. Er bod yr Arolwg o Adnoddau Teulu yn fanwl iawn, nid yw'r sampl blwyddyn unigol yng Nghymru yn ddigon mawr i gynhyrchu'r holl amcangyfrifon sydd eu hangen ar gyfer dadansoddiad o'r math hwn ar sail gadarn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, defnyddiwyd set ddata tair blynedd gyfun; gan gydgrynhoi'r samplau o 2015-16, 2016-17 a 2017-18, oll wedi'u huwchraddio i werthoedd 2019-20.

*Nodi defnydd o wasanaethau*

21. Er mwyn modelu gwasanaethau cyhoeddus a dyrannu gwariant cyhoeddus i bobl ac aelwydydd, mae'n rhaid i ni allu yn y lle cyntaf, nodi pwy sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae dau brif ddull o wneud hyn yn y dadansoddiad hwn. Darperir tystiolaeth o'r modd y defnyddir rhai gwasanaethau cyhoeddus yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu, sef y ffynhonnell ddata sydd hefyd yn darparu gwybodaeth am incwm aelwydydd. Nid yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn darparu gwybodaeth am ddefnydd gwasanaethau eraill. Yma, defnyddiwyd dull rhagfynegi y tu allan i'r sampl. Arsylwir ar nodweddion personau neu aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy ffynonellau data eraill a lluniwyd model ystadegol i gysylltu'r wybodaeth hon â'r rhai sydd â'r un nodweddion yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu i ragfynegi'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus.

*Mesur y defnydd o wasanaethau addysg*

22. Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn darparu data uniongyrchol ar addysg. Caiff oedolion a phlant eu nodi fel defnyddwyr y gwasanaeth cyhoeddus hwn, yn ôl p'un a ydynt mewn addysg gynradd, uwchradd, bellach neu uwch.

23. Caiff profion modd eu cymhwyso i gyllid myfyrwyr addysg uwch, yn ôl incwm aelwydydd. Mae hyn yn pennu cyfrannau gwariant cyllid myfyrwyr (benthyciadau a grantiau) ar gyfer unigolion y nodir eu bod mewn addysg uwch.

*Mesur y defnydd o wasanaethau iechyd*

24. Ni chaiff y defnydd o wasanaethau iechyd ei nodi yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu. Cynhyrchwyd modelau i ystyried nodweddion pobl sy'n defnyddio

---

[6] I gael rhagor o fanylion, gweler https://www.gov.uk/government/collections/family-resources-survey--2

[7] Caiff incwm aelwydydd ei addasu i adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol aelwydydd. Bwriedir i'r broses addasu neu gyfwerthedd hon ei gwneud yn haws cymharu incwm ac adlewyrchu safonau byw ar draws gwahanol fathau o aelwydydd. Mae'r broses cyfwerthedd yn defnyddio graddfa cyfwerthedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

gwasanaethau iechyd gwahanol, fel gwasanaethau meddyg teulu, yn seiliedig ar ddata gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[8], fel yr argymhellwyd gan Landman Economics. Defnyddiwyd y modelau hynny wedyn i gymhwyso'r defnydd disgwyliedig o ofal iechyd i'r rhai sydd â'r un nodweddion yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu.

25. Dewiswyd y nodweddion yn y model yn seiliedig ar b'un a ydynt yn helpu i egluro'r defnydd o wasanaethau iechyd ac maent hefyd yn bresennol yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu. Yn yr achos hwn, y nodweddion allweddol yw oedran, rhyw ac arwyddion o salwch hirdymor.

26. Wedyn, caiff y defnydd disgwyliedig o wasanaethau iechyd ei fireinio, lle y bo'n bosibl, gan ddefnyddio data ar amlder a dwysedd y defnydd o wasanaethau. Er enghraifft, gellir ategu p'un a oedd gan yr unigolyn apwyntiad ysbyty gyda data ar nifer yr ymweliadau a hyd cyfartalog yr arhosiad yn yr ysbyty. Mae amlder a dwysedd y defnydd, lle y caiff y data hyn eu cymhwyso, yn amrywio yn ôl oedran a rhyw.

*Mesur y defnydd o ofal cymdeithasol i bobl hŷn*

27. Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn darparu data uniongyrchol ar y defnydd o ofal cymdeithasol cartref. Nid yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn darparu data uniongyrchol ar ofal preswyl am ei fod yn arolwg o gartrefi nad yw'n cynnwys cartrefi gofal. Defnyddiwyd dull rhagfynegi y tu allan i'r sampl, gan ddefnyddio model i amcangyfrif y tebygolrwydd o fynd i mewn i ofal cymdeithasol preswyl. Caiff y tebygolrwydd hwn ei gymhwyso i bobl dros 65 oed yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu fel mesur procsi ar gyfer y defnydd o ofal preswyl. Daw'r amcangyfrifon tebygolrwydd o waith Landman Economics yn seiliedig ar ddata gan Arolwg ELSA (Arolwg Hydredol Lloegr ar Heneiddio). Er bod y data hyn yn cwmpasu pobl yn Lloegr yn unig, dyma'r ffynhonnell fwyaf addas yn absenoldeb data cyfatebol i Gymru.


28. Hefyd, defnyddir profion modd a chyfalaf, gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol a ddarperir yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu, i amcangyfrif lefel y ddarpariaeth gyhoeddus o wasanaethau gofal cymdeithasol cartref a phreswyl i bobl hŷn.

## Canlyniadau

29. Dangosir canlyniadau gwaith modelu Llywodraeth Cymru ar effaith ddosbarthiadol gwariant adnoddau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn ffigur un. Mae'n dangos bod y gwariant, ar y cyfan, ar y meysydd o wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys, yn raddoledig o ran incwm. Fodd bynnag, nid yw'n gyson raddoledig yn ôl cwintel incwm.

[8] I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru

**Ffigur un: Gwariant adnoddau yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd a gwasanaethau cyhoeddus, 2019-20**




30. Mae'r siart yn dangos y gall yr aelwydydd hynny yn y cwintel incwm isaf elwa llai fesul person na'r cwintelau olaf ond un ac olaf ond dau. Fodd bynnag, mae'r rheini yn y ddau gwintel uchaf (ar ben uchaf y dosbarthiad incwm aelwydydd) yn elwa llai na'r rhai ag incwm is.

31. Gwelir bod gwariant ar iechyd yn raddoledig mewn perthynas ag incwm ar draws y dosbarthiad incwm cyfan. Fodd bynnag, ychydig iawn o amrywiad a geir ar draws y cwintelau.

32. Gwelir bod pob ffurf ar wariant ar addysg yn raddoledig at ei gilydd mewn perthynas ag incwm aelwydydd. Mae gwariant ar ysgolion yn raddoledig, yn rhannol am fod cyfran gymharol uwch o aelwydydd â phlant oedran ysgol yn y cwintelau is. Mae gwariant ar addysg bellach hefyd yn raddoledig, â phwyslais ar y cwintelau incwm is. Mae addysg uwch yn raddoledig i ryw raddau, ond ychydig iawn o effaith a gaiff yn y cwintel incwm isaf. Y rheswm dros hyn yw bod y rhai y nodwyd eu bod yn mynychu addysg uwch, hyd yn oed gyda phrawf modd wedi'i gymhwyso ar gyfer cyllid grant myfyrwyr, yn lleiaf tebygol o fod yn yr aelwydydd incwm isaf.

33. Mae gofal cymdeithasol i bobl hŷn hefyd yn gymharol raddoledig, er bod mwy yn cael ei wario yn ôl cyfran ar aelwydydd yn y trydydd gwintel (y cwintel canol). Yn rhannol, y rheswm dros hyn yw bod cyfran fwy o bobl hŷn yn y cwintel hwnnw, gan ysgogi cyfran uwch o'r gwariant, hyd yn oed ar ôl cymhwyso'r prawf modd cyfalaf ac incwm.

34. Mae mwy o fanylion am yr elfennau unigol hyn yn yr atodiad.

**Problemau wrth fesur effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus**

35. Mae dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yn codi nifer o faterion cysyniadol a methodolegol. Nodir rhai ohonynt yn yr adran hon.

*Sut i roi gwerth ar wasanaethau cyhoeddus?*

36. Yn wahanol i ddadansoddiad o'r system dreth a budd-daliadau, nid yw gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn ymwneud yn uniongyrchol â throsglwyddiadau ariannol rhwng unigolion, aelwydydd a'r llywodraeth. Mae hyn yn codi materion ynghylch sut i fesur gwerth y gwasanaethau dan sylw. Y dybiaeth a gaiff ei chymhwyso i'r dadansoddiad hwn yw bod y gwerth yn hafal i gost gyfartalog darparu'r gwasanaeth. Efallai na fydd y gwerth hwn yn hafal i'r gwerth i'r sawl sy'n ei dderbyn neu i gymdeithas yn ehangach. Fodd bynnag, gall gynrychioli gwerth tebyg i'r hyn y byddai'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth yn gorfod ei dalu fel arall. Felly, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y rhannau hynny o ddosbarthiad incwm aelwydydd sy'n cael cyfrannau cymharol fwy o wariant cyhoeddus, er bod hynny'n digwydd mewn ffordd anuniongyrchol.

37. Nid yw'r math hwn o ddadansoddiad yn addas iawn ar gyfer cynnwys gwariant ataliol. Gellir ei ystyried yn ffurf ar fuddsoddiad cymdeithasol, sy'n lleihau'r angen am wariant yn y dyfodol. Fodd bynnag, er y gall fod yn werth chweil, mae'n anodd iawn cofnodi manteision yn y dyfodol mewn dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus. Gall y buddiolwyr fod yn wahanol i'r rhai y nodir eu bod yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd.

38. Bydd newidiadau i ansawdd gwasanaeth ond yn cael eu cofnodi os cânt effaith uniongyrchol a chymesurol ar y gost. Gall y dadansoddiad hwn ond nodi'r rhai sy'n debygol o dderbyn gwasanaeth cyhoeddus penodol a faint y mae'n ei gostio i'w ddarparu. Yn y dyfodol, bydd y dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio i ystyried newidiadau i gyllid, ac yna mae'n bosibl y bydd angen ystyriaeth bellach ynghylch ffyrdd o adlewyrchu ansawdd gwasanaeth yn ogystal â newidiadau i gyllid.

*Pwy sy'n derbyn y gwasanaeth a'r budd?*

39. Mae'r dadansoddiad wedi canolbwyntio ar y ffurfiau ar wasanaeth cyhoeddus lle mai'r rhai sy'n elwa ar y gwasanaeth yw'r rhai sy'n ei dderbyn. Er y gall fod yn bosibl nodi pwy sy'n derbyn gwasanaethau cyhoeddus o ddata'r arolwg, nid yw hynny o reidrwydd yn cyfateb i bawb sy'n elwa ar y gwariant. Er enghraifft, mae myfyrwyr sy'n mynychu ysgol yn elwa ar dderbyn addysg. Ond mae gwarcheidwaid neu rieni hefyd yn elwa ar wariant y llywodraeth ar addysg eu plant ac elfen o ofal plant. Cofnodir y ddwy elfen hyn drwy gynnal y dadansoddiad hwn ar lefel yr aelwyd. Fodd bynnag, mae addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cynnig buddion ehangach i'r gymdeithas

ac maent yn anos o lawer i'w cofnodi mewn dadansoddiad o'r math hwn ac ni chânt eu cynnwys yma.

*Data a materion yn ymwneud ag amcangyfrif*

40. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio dull 'o'r brig i lawr' o fesur gwariant a derbynwyr gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw wedi ceisio modelu pob rhaglen fanwl yn unigol. Mae rhai rhaglenni wedi'u dylunio i dargedu rhannau penodol o'r gymdeithas neu leoliadau daearyddol penodol, a bod yn fanteisiol iddynt. Nid yw'r agweddau manwl hyn wedi cael eu cynnwys oherwydd cyfyngiadau adnoddau a data.

41. Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad hwn, er eu bod yn canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth eang, yn dal i fod yn gyfyngedig ac mewn mannau, mae'n dibynnu ar samplau bach o bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae hyn yn wir er bod data'r arolwg wedi cael eu casglu dros dair blynedd. Felly, byddai ymestyn y dadansoddiad i ystyried rhaglenni a meysydd polisi mwy penodol yn gofyn am ddulliau amgen a/neu hybu sampl yr Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru.

42. Gall cyfyngiadau data hefyd effeithio ar fanyldeb rhai o'r canlyniadau a adroddir yma. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i hyn effeithio ar y canlyniadau a'r casgliadau cyffredinol. Ar y cyfan, cryfder dadansoddiad dosbarthiadol yw dangos patrymau bras yn hytrach nag amcangyfrifon manwl o effeithiau ariannol mewn adrannau unigol o'r dosbarthiad incwm.

43. Ceir cwmpas i ymchwilio ymhellach i'r dulliau a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn i ddyrannu defnydd o wasanaethau cyhoeddus, a'u gwella o bosibl. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyfyngu i ryw raddau gan yr ystod o newidynnau a nodweddion yn y setiau data sydd ar gael.

**Casgliadau a'r Camau Nesaf**

44. Mae dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yn faes newydd ac arloesol i Lywodraeth Cymru. Mae'n dangos, ar draws prif elfennau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, fod gwariant yn raddoledig gydag incwm ar y cyfan, er bod rhywfaint o amrywiant ar draws gwahanol feysydd rhaglenni.

45. Gydag amser, mae potensial i ddadansoddiad ar y ffurf hon fod yn rhan o broses gyllidebol Llywodraeth Cymru. Y nod yw i'r math hwn o ddadansoddiad fod yn rhan o'r gyfres o wybodaeth sy'n cyd-fynd â chyllidebau yn y dyfodol. Bydd ei allu i lywio penderfyniadau unigol yn ogystal â meddwl strategol eang yn dibynnu ar y data sydd ar gael mewn meysydd penodol.

46. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio gwella'r modelu a'r dulliau a ddefnyddir er mwyn gwella'r dadansoddiad lle y bo'n bosibl. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru'r data a'r flwyddyn wariant a ddefnyddir ac ystyried

ffynonellau data posibl eraill er mwyn mireinio'r amcangyfrifon presennol lle y bo'n bosibl.


47. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ddadansoddi buddiolwyr gwariant cyhoeddus drwy fetrigau eraill ar wahân i incwm, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn dibynnu ar y data sydd ar gael a chael samplau o faint addas y gellir eu defnyddio i ddadansoddi nodweddion eraill o ddiddordeb.

48. Rydym yn croesawu adborth gan randdeiliaid â diddordeb er mwyn helpu i lywio ein dull gweithredu a gwella'r dadansoddiad hwn yn y dyfodol. Gellir rhannu adborth drwy gyfeiriad e-bost Trysorlys Cymru – TrysorlysCymru@llyw.cymru / WelshTreasury@gov.wales. Rydym hefyd yn rhagweld y gellir defnyddio dulliau Trysorlys Cymru o ymgysylltu â rhanddeiliaid – fel y nodir yn y Cynllun Gwella'r Gyllideb – i drafod y dadansoddiad hwn â rhanddeiliaid â diddordeb er mwyn llywio datblygiadau yn y dyfodol hefyd.

## Atodiad


1. Amcangyfrifir bod gwariant adnoddau ar iechyd yn raddoledig mewn perthynas ag incwm (ffigur A1). Caiff mwy o wariant adnoddau ar iechyd ei briodoli i bobl yn y cwintelau incwm isaf nag aelwydydd incwm cyfartalog ac incwm uwch. Mae gwariant yn y cwintel incwm isaf tua chwe y cant yn uwch na'r cyfartaledd ac mae gwariant yn y cwintel uchaf tua naw y cant yn is na'r cyfartaledd.

**Ffigur A1: Gwariant adnoddau ar iechyd yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2019-20**




2. Gwelir bod gwariant adnoddau ar ysgolion hefyd yn raddoledig mewn perthynas ag incwm (ffigur A2). Mae gwariant fesul person wyth y cant yn uwch na'r cyfartaledd yn y cwintel incwm isaf a 38% yn uwch na'r cyfartaledd yn yr ail gwintel. Y rheswm dros hyn yw bod mwy o blant oedran ysgol, ar gyfartaledd, yn yr ail gwintel. Mae'r gwariant fesul person yn y cwintel uchaf ond yn 55% o'r cyfartaledd. Y rheswm dros hyn yw bod nifer y plant oedran ysgol yn gymharol fach mewn aelwydydd incwm uchel.

**Ffigur A2: Gwariant adnoddau ar ysgolion yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2019-20**



3. Gwelir bod gwariant adnoddau ar addysg uwch yn hynod raddoledig mewn perthynas ag incwm (ffigur A3). Mae'r gwariant yn y cwintel incwm isaf 57% yn uwch na'r gwariant mewn aelwyd gyfartalog. Ar y llaw arall, mae gwariant yn y cwintel incwm uchaf yn 62% o'r cyfartaledd.


**Ffigur A3: Gwariant adnoddau ar addysg bellach yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2019-20**



4. Amcangyfrifir bod gwariant adnoddau ar addysg uwch yn raddoledig yn fras mewn perthynas ag incwm. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a chyllid grant myfyrwyr. Mae'r gwariant fesul pen yn is na'r cyfartaledd yn yr aelwydydd incwm isaf ond mae'n uwch na'r cyfartaledd yn yr ail a'r trydydd cwintelau. Mae'r gwariant fesul pen yn y cwintel uchaf hefyd yn is na'r cyfartaledd. Mae'r canlyniad hwn yn adlewyrchu dau ffactor: mae pobl sy'n mynychu addysg uwch yn dueddol o ddod o aelwydydd incwm uwch, ond hefyd mae'r grant prawf modd yn darparu mwy ar gyfer y rhai sy'n dod o aelwydydd incwm is.

5. Mae'r canfyddiadau hyn yn eithrio pob ffurf ar fenthyciadau myfyrwyr, y caiff rhan ohonynt ei dosbarthu fel gwariant cyhoeddus. Tybir ei bod yn annhebygol y caiff pob benthyciad myfyrwyr ei ad-dalu'n llawn, am fod y telerau ad-dalu yn dibynnu ar incwm ac yn cynnwys cyfyngiadau amser. Mae'r elfen na chaiff ei had-dalu yn cael ei chyfrif fel gwariant cyhoeddus a chaiff ei amcangyfrif ar adeg rhoi'r benthyciadau. Mae effaith ddosbarthiadol y gwariant cyhoeddus hwnnw yn anodd ei amcangyfrif ac, ar gyfer benthyciadau unigol, bydd yn dibynnu ar incwm myfyrwyr heddiw yn y dyfodol yn hytrach nag incwm eu cartrefi presennol.

**Ffigur A4: Gwariant adnoddau ar addysg uwch yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2019-20**



6. Gwelir bod gwariant adnoddau ar ofal cymdeithasol i bobl hŷn yn raddoledig mewn perthynas ag incwm ar y cyfan (ffigur A5). Mae gwariant yn y cwintel incwm isaf 20% yn uwch na'r cyfartaledd fesul pen. Mae'r gwariant fesul pen yn y cwintel incwm uchaf ond yn 34% o'r cyfartaledd. Fodd bynnag, nid yw'r gydberthynas ag incwm yn unffurf, gyda'r gwariant uchaf fesul pen ymhlith y rhai yn y cwintel canol (neu'r trydydd cwintel). Mae'r patrwm hwn hefyd yn gymwys i wariant adnoddau ar ddarpariaeth gofal cartref a gofal preswyl.

7. Mae'r profion modd (incwm a chyfalaf) ar gyfer gofal cymdeithasol wedi'u cymhwyso, sy'n golygu bod y ffurf hon ar wariant yn fwy graddoledig nag y byddai fel arall. Fodd bynnag, y brif effaith yw y nodir bod mwy o bobl yn y band incwm canol yn derbyn gofal cymdeithasol i bobl hŷn neu fod disgwyl iddynt ei dderbyn. Mae hyn yn bennaf am fod mwy o bobl hŷn yn y band incwm hwn.

**Ffigur A5: Gwariant adnoddau ar ofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2019-20**

